

## **Gwiriadau adnabod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) drwy Swyddfa'r Post – Cwestiynau Cyffredin**

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y Cwestiynau Cyffredin a gafodd AGC am y broses newydd ar gyfer Gwiriadau Adnabod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy Swyddfa'r Post.

Rydym wedi'u hatgynhyrchu yma er gwybodaeth. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu unrhyw gwestiynau eraill yr hoffech eu codi, anfonwch e-bost atom yn [CIW@gov.wales](mailto:CIW@gov.wales).

### **O ba ddyddiad y byddaf yn gallu cael gwiriad adnabod mewn swyddfa bost?**

Bydd pob cais o 1 Gorffennaf 2021 yn cael gwiriad adnabod mewn swyddfa bost.

### **Pwy sydd angen cael gwiriad adnabod drwy Swyddfa'r Post?**

Unrhyw un sy'n gwneud cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda AGC drwy ein darparwr trydydd parti, Vibrant Nation.

### **A allaf fynd â dogfennau adnabod fy mab i swyddfa bost i gael eu gwirio?**

Caiff gwiriadau adnabod eu cynnal gan Swyddfa'r Post o 1 Gorffennaf 2021 er mwyn gwneud y canlynol:

- Cadarnhau pwy yw ymgeisydd;
- Dilysu dogfennau adnabod yr ymgeisydd.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r unigolyn a enwir ar y cais fynd i swyddfa bost i gael gwiriad i gadarnhau pwy ydyw a dilysu ei ddogfennau adnabod gwreiddiol.

Ni fydd Swyddfa'r Post yn gallu cwblhau'r gwiriad adnabod os nad yw'r unigolyn a enwir ar y cais yn mynd i swyddfa bost ei hun.

### **A allaf ddewis dod i un o swyddfeydd AGC i gael gwiriad adnabod o hyd?**

O 1 Gorffennaf 2021, ni fydd AGC yn gallu cynnal gwiriadau adnabod mwyach.

### **Sawl swyddfa bost sy'n cynnig y gwasanaeth gwiriadau adnabod?**

Mae 191 o swyddfeydd post ledled Cymru (gan gynnwys rhai yng nghefn gwlad).

### **Sut mae gwybod pa swyddfeydd post sy'n cynnig y gwasanaethau?**

Mae adnodd i ddod o hyd i gangen Swyddfa'r Post wedi cael ei gynnwys yn y ffurflen gais ar-lein, sy'n eich galluogi i chwilio am swyddfa bost gyfagos.

### **Sut mae trefnu gwiriad adnabod drwy Swyddfa'r Post?**

Wrth gwblhau eich ffurflen gais ar-lein, bydd rhaid i chi ddewis pa ddogfennau adnabod y byddwch yn eu defnyddio i brofi pwy ydych. Unwaith y byddwch wedi dewis y dogfennau, bydd y system yn cynhyrchu cod bar.

Mae'r cod bar hwn yn rhoi gwybod i Swyddfa'r Post fod angen gwiriad adnabod arnoch, a pha ddogfennau y byddwch yn dod â nhw i'r gwiriad.

**Rhaid** i chi ddod â'r cod bar i swyddfa bost ynghyd â'r dogfennau y gwnaethoch eu dewis ar eich ffurflen gais neu ni fydd yn bosibl cynnal eich gwiriad adnabod.

### **A oes angen gwneud apwyntiad?**

Nac oes, nid oes angen i chi wneud apwyntiad.

Cyn belled â bod gennych eich cod bar a'r dogfennau y gwnaethoch eu dewis ar eich ffurflen gais, gallwch fynd i unrhyw swyddfa bost a restrir i gael gwiriad adnabod.

**Rhaid** i chi ddod â'r cod bar i swyddfa bost ynghyd â'r dogfennau y gwnaethoch eu dewis ar eich ffurflen gais neu ni fydd yn bosibl cynnal eich gwiriad adnabod.

### **A oes angen i mi argraffu'r cod bar?**

Nac oes, nid oes angen i chi argraffu'r cod bar. Gallwch dynnu llun o'r cod bar ar eich dyfais symudol, neu dynnu ciplun os ydych wedi cwblhau eich cais ar eich ffôn clyfar. Os nad oes camera ar eich ffôn, gallwch argraffu'r cod bar a mynd ag ef gyda'ch dogfennau.

### **A yw swyddfeydd post yn cynnig gwasanaeth dwyieithog?**

Mae rhai swyddfeydd post yn cynnig gwasanaeth dwyieithog a bydd y wybodaeth hon ar gael ar wefan Swyddfa'r Post.

### **Ar ba ddiwrnodau y mae swyddfeydd post yn cynnig gwiriadau adnabod?**

Cynigir y gwasanaeth hwn yn ystod oriau agor arferol swyddfeydd post. Mae hyn yn cynnwys penwythnosau. Bydd angen i chi edrych ar wefan Swyddfa'r Post i weld oriau agor pob swyddfa.

### **Faint fydd gwiriad drwy Swyddfa'r Post yn ei gostio?**

Mae ffi o £12 yn daladwy unwaith y byddwch wedi cwblhau eich gwiriad adnabod.

### **A fydd angen i mi gael gwiriad adnabod drwy Swyddfa'r Post os byddaf yn tanysgrifio i Wasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?**

Unwaith y byddwch wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth diweddarau, byddwch yn talu ffi flynyddol i gadw eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. Mae hyn yn golygu na fydd rhaid i chi adnewyddu eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd na chwblhau gwiriad adnabod, ar yr amod bod eich tanysgrifiad yn weithredol o hyd.

### **Beth fydd angen i mi ei wneud os ydw i wedi cael fy nhystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy gwmni gwahanol?**

Nid yw'r broses yn wahanol os ydych wedi cael eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy drydydd parti gwahanol, ac nid drwy AGC. Bydd angen i chi roi'r wybodaeth i AGC o fewn 3 mis i ddyddiad cyflwyno'r dystysgrif o hyd.

### **Os bydd gennyf ymholiad, pwy ddylwn i ei ffonio?**

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch, cysylltwch â Vibrant Nation ar 02920 334995 neu anfonwch e-bost i [admin@vibrantnation.co.uk](mailto:admin@vibrantnation.co.uk).